

CYNGOR CYMUNED **Y FERWIG** COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 1 Hydref 2018 am 7.30yh yn Hen Ysgol y Ferwig

Presennol:

Cyng. Dilwyn Jenkins (*Cadeirydd*)

Cyng. Llinos Price

Cyng. Eurig Lloyd

Cyng. Lyn Jones

Cyng. Clive Davies (*Aelod lleol o'r Cyngor Sir*)

Cyng. Auriol Williams (*Is Gadeirydd*)

Cyng. Ann Stokoe

Cyng. Matthew Morgan

Cyng. Peter Williams

Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol: Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Dilwyn Jenkins, bawb i gyfarfod mis Hydref. Llongyfarchodd yr Is-Gadeirydd, y Cyng. Auriol Williams, y Cyng. Dilwyn Jenkins a Mrs Eleri Jenkins ar ddathlu eu Priodas Ruddem. Dymunodd y Cadeirydd wellhad buan i Mr Wynford Jones, Clerc Cyngor Tref Aberteifi, yn dilyn ei lawdriniaeth; gwasanaethodd fel eilydd i'r clerch pan oedd angen yn y gorffennol.

2. Ymddiheuriadau am absenoldeb: Y Cyng. Des Davies, Lloyd Jenkins.

3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.

Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Auriol Williams bod cofnodion mis Medi yn gywir.

4. Datgelu buddiannau personol: Y Cyng. Llinos Price (cais am rodd ariannol i Gapel Penyparc)

5. Materion yn codi:

(a) **Cysgodfan Bysiau Penyparc:** Cytunodd y Cyng. Llinos Price a Matthew Morgan drafod gyda Mr Mark Toft ynglŷn â'r gwaith i osod sylfaen i'r gysgodfan. Oherwydd cymhlethdodau, penderfynwyd bod y Clerc yn gofyn i'r cwmni Bus Shelters Cyf. gyflawni'r gwaith.

6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996. Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig.

I'w ohirio tan dderbyn cadarnhad bod yr Hen Ysgol wedi ei phrynu oddi wrth y Cyngor Sir.

Cyngor ar Bopeth

Gŵyl Fawr Aberteifi

Gofal Mewn Galar

Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru

Capel y Bedyddwyr Penyparc

Talwyd ym mis Ebrill £150.00

Talwyd ym mis Ebrill £150.00

Talwyd ym mis Ebrill £50.00

Siec 101720 £150.00

Siec 101721 £1,000.00

Cynigiwyd gan y Cyng. Matthew Morgan ac eiliwyd gan y Cyng. Auriol Williams bod y ddau gyfraniad uchod yn cael eu talu.

7. Cynllunio:

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau'r Cyngor</i>
A180477	Plot 2 Towyn Farm, Gwbert "Codi annedd, sied a gwaith cysylltiadau"	Mewn egwyddor nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad er nodir bod nifer y ffenestri yn ormodol.
A180880	C. & D. Davies, Coedmelin Cottage, Tremain. "Change of use of existing holiday let to annexe (for temporary period")	Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad.
A180291	3 Plots adjacent to Madiwela Gwbert. "Erection of three dwellings"	Nid yw'r Cyngor yn cefnogi'r cais gan fod nifer o wrthwynebiadau wedi cyrraedd.
A180641	Land to rear of Madiwela "Erection of three dwellings"	Sylwadau wedi eu hanfon ar 19 Gorffennaf.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

8. Materion Ariannol

Biliau wedi eu talu:

Cyflog y Clerc (Medi 2018)	101713	£308.77
Costau'r Clerc (Medi 2018)	101714	£50.00
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Medi 2018)	101715	£77.20
Clwb Ffermwyr Ifainc Penyparc (Glanhau'r Ystafelloedd Newid) 8/6/2018 – 8/9/2018	101716	£225.00
Playdale Playgrounds Ltd (<i>Cradle Seat</i> for Caegwyrdd, Penyparc)	101717	£80.40

Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Materion ariannol eraill

Dosbarthwyd adroddiad y cyfrifon ariannol am dri mis hyd at 30 Medi i'r aelodau yn y cyfarfod.

Cynigiwyd gan y Cyng. Matthew Morgan ac eiliwyd gan y Cyng. Auriol Williams bod y cyngor yn cymeradwyo'r cyfrifon.

Derbyniadau: Dim

9. Gohebiaeth:

35	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.	“Trawsnewid ein Gwasanaeth Iechyd – Llais cymunedau ar iechyd a gofal”	Adroddiad o ymchwiliad y Bwrdd Iechyd ar gael gan y Clerc. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 9 Medi.
36	Cyngor Sir Ceredigion (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad)	Ymgynghoriad Adolygu'r Polisi Hapchwarae, Medi 2018.	Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 10 Medi.
37	Comisiwn Ffiniau i Gymru	Adroddiad Argymhellion Ffiniau Terfynol ar gyfer Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru ar 5 Medi 2018.	Mae copi ar gael gan aelod lleol y Cyngor Sir.

10. Materion Eraill:

- (a) **Pot blodau tu allan i garej Robert Davies, Penyparc:** Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at berchennog y garej gan ofyn iddo symud y pot blodau yn ôl er mwyn diogelwch i yrrwyr cerbydau sy'n gadael y blaencwrt.
- (b) **Palmant o fynedfa “Cardigan Sand & Gravel” hyd Heol Caemorgan:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyng. John Adams Lewis ynglŷn a diweddariad i'r cynllun.
- (c) **Cyfarfod Misol y Cyngor ar 5 Tachwedd:** Gan fod Clwb Ffermwyr Ifainc Penyparc yn defnyddio Ystafell Berkley ar y 5 Tachwedd, cynhelir cyfarfod misol y Cyngor yn Ffestri Capel Penyparc ar 5 Tachwedd.
- (d) **Bin yw leoli:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Mr Steve Williams am ddiweddariad.
- (e) **Rhoddion ariannol:** Cytunwyd bod y Cyngor yn paratoi ffurflen gais i'w hanfon at bob ymgeisydd o hyn ymlaen, a hefyd bod cyfrifon diweddaraaf y mudiad yn cael eu derbyn cyn trafod y cais.
- (f) **Hysbysfwrdd Penyparc:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Mr John Morris i baentio'r hysbysfwrdd sydd ar sgwâr Penyparc.
- (g) **Cyflymder y drafnidiaeth yn ardal Tremain:** Derbyniwyd cwyn oddi wrth aelod o'r cyhoedd ynglŷn â chyflymder y drafnidiaeth o Ficerdy Tremain hyd gylchfan Blaenannerch. Cytunwyd cysylltu â'r Cyngor Sir am ostwng y cyflymder ar y rhan yma o'r ffordd.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

11. Adroddiad y Cynghorydd Sir, y Cyng. Clive Davies:

- (a) **Cynlluniau Lle:** Mae'r gwaith trefnu yn parhau gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â chyllideb.
- (b) **Ffordd lawr i draeth y Mwnt:** Bydd y Cyng. Davies yn cyfarfod gyda pherchnogion y tir a swyddogion y Cyngor Sir i drafod y ffordd ymlaen.
- (c) **Golau yn y Gysgodfan Bws gyferbyn â Garej O. C. Davies a'r Mab:** Cytunwyd gofyn i'r Cyngor Sir am osod golau yn y gysgodfan.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 5 Tachwedd yn Ffestri Capel Peyparc

Cyfarfodydd y Cyngor am 2018: Rhagfyr (F)

Cyfarfodydd y Cyngor am 2019:

7 Ionawr (YB) 4 Chwefror (F) 4 Mawrth (YB) 1 Ebrill (F) 13 Mai (YB) 3 Mehefin (F)

1 Gorffennaf (YB) 2 Medi (F) 7 Hydref (YB) 4 Tachwedd (F) 2 Rhagfyr (YB)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on 1 October, 2018 at 7.30p at Hen Ysgol y Ferwig

Present

Cllr Dilwyn Jenkins (*Chairperson*)

Cllr Llinos Price

Cllr Eurig Lloyd

Cllr Lyn Jones

Cllr Clive Davies (*Local member of the County Council*)

Cllr Auriol Williams (*Vice-Chair*)

Cllr Ann Stokoe

Cllr Matthew Morgan

Cllr Peter Williams

Mrs Hildreth Owen (*Clerk*)

1. Chairperson's welcome and Personal Matters. The Chairperson, Cllr Dilwyn Jenkins, welcomed everyone to the October meeting. The Vice-Chairperson, Councillor Auriol Williams, congratulated Cllr Dilwyn Jenkins and Mrs Eleri Jenkins on celebrating their Ruby Wedding recently. The Chairman wished Mr Wynford Jones, clerk to Cardigan Town Council, who had deputised for the Clerk in the past, a speedy recovery following his hospital treatment.

2. Apologies for absence: Cllrs Des Davies, Lloyd Jenkins.

3. Minutes of the previous meeting.

It was proposed by Cllr Llinos Price and seconded by Cllr Auriol Williams that the minutes of the September meeting be recorded as correct.

4. Declaration of personal interests: Cllr Llinos Price (request for financial support for Penyparc Chapel)

5. Matters arising:

(a) **Penyparc Bus Shelter:** Cllrs Llinos Price and Matthew Morgan discussed various issues with Mr Mark Toft. Due to some difficulties, it was decided to ask the company Bus Shelters Ltd. to carry out the complete work.

6. Requests for financial support.

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig. (*Payment has been delayed until confirmation is received that the Old School has been bought from the County Council.*)

Citizens' Advice Bureau	Paid in April, 2018	£150.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	Paid in April, 2018	£150.00
Cruse Bereavement Care	Paid in April, 2018	£50.00
Bobath Children's Therapy Centre	Cheque 101720	£150.00
Penyparc Chapel	Cheque 101721	£1,000.00

It was proposed by Cllr Matthew Morgan, and seconded by Cllr Auriol Williams that the above two donations be paid.

7. Planning:

<i>App. No.</i>	<i>Address & Purpose</i>	<i>Community Council's Observations</i>
A180477	Plot 2 Towyn Farm, Gwbert "Erection of a dwelling, shed and associated works".	In principle the council have no objections but it was noted that the number of windows is excessive.
A180880	C & D Davies, Coedmelin Cottage, Tremain. "Change of use of existing holiday let to annex (for temporary period".	Council has no objections.
A180291	3 plots adjacent to Madiwela, Gwbert: "Erection of three dwellings"	Council do not support this application as numerous objections have been voiced by local people.
A180641	Land to rear of Madiwela, Gwbert: "Erection of three dwellings"	Original observations forwarded to the County Council 19 July, 2018

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

8. Financial Matters.

Bills paid:

Clerk's wages (September 2018)	101713	£308.77
Clerk's Expenses (September 2018)	101714	£50.40
HM Revenue & Customs: Clerk's Income Tax (Sept. 2018)	101715	£77.20
Penyparc Young Farmers' Club: (Cleaning changing rooms 8/6/2018 – 8/9/2018)	101716	£225.00
Playdale Playgrounds Ltd. Cradle Seat (Cae Gwyrdd, Penyparc)	101717	£80.40

It was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Llinos Price that the above bills be paid.

Other financial matters:

The Financial Accounts for three months up to 30 September was distributed to members. It was proposed by Cllr Matthew Morgan and seconded by Cllr Auriol Williams that the council approves the report.

Receipts: None

9. Correspondence:

35	Hywel Dda University Health Board	"Our Big NHS Changes" – Communities' Voice on Health and Care"	Report of Findings for Hywel Dda University. Hard copy can be obtained from the clerk. Forwarded to Councillors on 9 September
36	Ceredigion County Council (Corporate Lead Officer: Policy and Performance)	Gambling Policy Review Consultation September 2018.	Forwarded to Councillors on 10 September.
37	Boundary Commission for Wales.	Final Recommendation Report for the 2018 Review of Parliamentary Constituencies in Wales on 5 September 2018.	A hard copy can be obtained from the local County Council Member.

10. Other Matters:

- (a) **Flower pots outside Robert Davies' Garage Pwnyparc:** The clerk was asked to write to the owner of the garage, asking him to move two flower pots in order to make it safer for drivers leaving the court.
- (b) **Pavement from entrance to "Cardigan Sand & Gravel" to Heol Caemorgan:** The Clerk was asked to contact Cllr John Adams regarding an update on the work to be carried out.
- (c) **Monthly meeting of the Council on 5 November:** As Penyparc Young Farmers' Club will be holding a Guy Fawkes nights at Ystafell Berkley on the 5 November, the Council meeting for this month only will be held at Penparc Chapel Vestry.
- (d) **Bin at junction from entrance to Heol y Felin:** The Clerk was asked to contact Mr Steve Williams regarding an update on this matter.
- (e) **Financial Aid:** It was agreed that the Council prepares an application form "Grant for Voluntary Organisation" for all requests in the future, and also requesting the latest audited accounts for the organisation to be included.
- (f) **Penyparc Notice board:** The Clerk was asked to contact Mr John Morris regarding the painting of the notice board at Penyparc.
- (g) **Traffic speed in the Tremain area:** A complaint has been received from a member of the public regarding the speed of traffic from Penyparc Vicarage to the Blaenannerch roundabout. The Clerk was requested to contact the County Council regarding this matter.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

11. County Councillor's Report – Cllr Clive Davies:

- (a) **Place Plans:** Plans are continuing with the County Council regarding budgeting of the scheme.
- (b) **Road down to Mwnt Beach:** Cllr Davies stated that he had arranged a meeting with land owners and officers of the County Council to move the project forward.
- (c) **Lights at the Bus Shelter opposite to O. C. Davies & Son Garage:** It was agreed to request that the County Council install a light at this bus shelter.

12. Date of next meeting: 5 November 2018 at **Penyparc Chapel Vestry**

Dates of Council Meetings for 2018: 3 December (F)

Council Meetings for 2019:

7 January (YB) 4 February (F) 4 March (YB) 1 April (F) 13 May (YB) 3 June (F)

1 July (YB) 2 September (F) 7 October (YB) 4 November (F) 2 December (YB)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting